MAE'R YMATEB HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i gam-drin ac esgeuluso plant ym Mhowys**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran eu gweithredu. Trafodwyd ymateb yr Heddlu i'r archwiliad hwn yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona, lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif, ar y 12fed o Ionawr a'r 14eg o Fawrth 2024.

Mae'n galonogol bod yr adroddiad hwn yn amlygu bod arweinwyr uwch yn yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r byrddau iechyd yn dangos ymagwedd ar y cyd tuag at drefniadau diogelu rhanbarthol, a bod arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu diwylliant hynod gadarnhaol o waith amlasiantaeth ar y cyd. Roedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o'r asiantaethau a gafodd eu harchwilio.

Nodwyd llawer o gryfderau yn yr adroddiad ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Mae meysydd y mae angen eu gwella'n cynnwys:

- Sicrhau bod cyfarfodydd / trafodaethau strategaeth canlyniad bob amser yn cael eu cyfweld ar ddiwedd ymchwiliad Adran 47.
- Mae angen gwella dealltwriaeth o lais y plentyn a phrofiadau byw plant ar draws y sefydliad.
- Sicrhau gwell cysondeb wrth gwblhau Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd ar ôl i blentyn fynd ar goll neu phan mae plentyn yn cael ei gofnodi fel troseddwr.
- Ymgorffori diwylliant archwilio cryfach, gan ddatblygu ffocws ansoddol ymhellach.
- Sicrhau bod adolygiadau goruchwyliol yn cynnwys ffocws ar y perygl i'r plant cysylltiedig.
- Sicrhau bod personél yr heddlu wedi'u hyfforddi yn yr ymagwedd arwyddion diogelwch a ddefnyddir yn ystod cynadleddau achos.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau ei bod hi'n bwysig ymgorffori'r argymhellion hyn er mwyn sicrhau diogelwch rhai o aelodau mwyaf bregus y gymuned. Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy niweddaru ynghylch cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Datblygu a chyflenwi pecyn hyfforddi wedi'i deilwra ar gyfer aelodau staff sy'n ymgymryd â thrafodaethau strategaeth.
- Cynlluniau i'r Cydlynydd Unigolion Coll gyflwyno sesiwn codi ymwybyddiaeth gyda phartneriaid.
- Cynnwys adolygiadau o drafodaethau strategaeth o fewn fframwaith archwilio'r Heddlu i asesu cydymffurfiaeth a pherfformiad.
- Mae hyfforddiant ar lais y plentyn a chwilfrydedd proffesiynol wedi'i gyflwyno ar draws y sefydliad a bydd yn parhau i gael ei gynnwys fel rhan o gyflwyniadau arbenigol i recriwtiaid newydd.

- Cynlluniau i ehangu ar y metrigau data perfformiad allweddol a gwaith i greu dangosfwrdd perfformiad amddiffyn plant.

Mae’n braf gweld bod cryfderau Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid lleol wedi’u hamlygu yn ystod yr archwiliad ar y cyd. Yr wyf wedi fy sicrhau gan y ganmoliaeth a roddwyd i’r Heddlu mewn perthynas â’u gwaith partneriaeth. Mae’n galonogol imi fod gwaith yn mynd rhagddo fel y dylai i wella’r ymateb i blant, ym Mhowys ac yn ehangach ar draws yr Heddlu, ac ar draws partneriaethau amlasiantaeth.

Edrychaf ymlaen at dderbyn diweddariadau pellach gan yr Heddlu ar eu gwaith tuag at rai o’r argymhellion hyn maes o law. Bydd fy swyddfa’n ymgymryd â gwaith monitro a sicrhau mewn perthynas â sicrhau llety ar gyfer plant (gan gynnwys hap samplu cofnodion dalfa) a phlant sydd â phrofiad o ofal yn y tymor nesaf. Bydd y Bwrdd Plismona’n parhau i fonitro’r maes gwaith hwn.